Cysgodion cellweirus

Trosolwg

Gall cysgodion drawsnewid mannau awyr agored yn lleoedd llawn rhyfeddod. Wrth i'r golau newid yn ystod y dydd, gall gwahanol bethau ymddangos, a gall ein cyrff wneud siapiau difyr hefyd!



Gweithgareddau

Ar ddiwrnod heulog braf, rhowch hen gynfasau, llenni rhwyllog neu ddarnau o ffabrig i hongian yn yr awyr agored er mwyn creu cysgodion enfawr sy'n symud. Clymwch nhw rhwng ffensys, coed neu bolion. Bydd cynfasau trwchus yn creu cysgodion tywyll, amlwg a bydd llenni rhwyllog yn creu patrymau ysgafn ar draws y ddaear. Wrth i'r gwynt chwythu, bydd y cysgodion yn newid eu siâp. Anogwch y plant i edrych ar beth sy'n digwydd pan fydd y ffabrig yn uwch, yn is, yn fwy tynn neu'n fwy llac. Arbrofwch drwy wneud y cysgodion yn fwy o faint, yn llai o faint, yn fwy tywyll neu'n fwy aneglur.

Offer

- Cynfasau gwyn mawr
- Llen rwyllog
- Llenni cawod
- Pegiau a rhwymau bynji

Cwestiynau allweddol

Beth sy'n creu'r cysgod yna?
Allwch chi wneud i'r cysgod symud?
Pwy all wneud y cysgod lleiaf a'r cysgod mwyaf?
Allwn ni ddefnyddio ein dwylo i greu siapiau anifeiliaid?

Deilliannau dysgu

Mae'r gweithgaredd hwn yn hybu ystod eang o ddysgu a datblygu gwyddonol, sy'n cynnwys archwilio golau a chysgod, sylwi ar sut y mae siapiau a symudiadau'n newid, datblygu sgiliau rhagfynegi, arsylwi achos ac effaith, a meithrin dealltwriaeth gynnar o ddeunyddiau a byd natur.

Symud y dysgu yn ei flaen

- Datblygu sgiliau rhagfynegi a datrys problemau
- Ymchwilio i achos ac effaith gan ddefnyddio golau a deunyddiau
- Meithrin iaith a dealltwriaeth wyddonol gynnar